**Cyngor Rhondda Cynon Taf**
Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Gwener, 26 Mehefin 2020 am 3.00 pm Ar-lein.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd E Stephens | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd W Jones |

**Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-**
Mr J Fish – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

**Aelodau o'r Cabinet yn bresennol**

Y Cynghorydd A Morgan – Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorydd J Rosser – Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

**Aelodau eraill yn bresennol**

Y Cynghorydd S Bradwick – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
Y Cynghorydd T Williams – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
Y Cynghorydd R Yeo – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles
Y Cynghorydd G Holmes – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles
Y Cynghorydd G Thomas – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad
Y Cynghorydd W Lewis – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc
Y Cynghorydd G R Davies

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

**52 Datgan Buddiant**

**PENDERFYNWYD –** yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, gwneud y datganiadau buddiant canlynol:-

1. Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L M Adams y buddiannau personol canlynol sy'n ymwneud ag Eitem 5 ar yr Agenda - Ailagor Ysgolion - "Rwy'n gweithio fel athro mewn ysgol gyfagos ac yn Gadeirydd y Llywodraethwyr mewn ysgol yn RhCT";

2. Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher y budd personol canlynol yn ymwneud ag eitem 4 ar yr Agenda - Diweddariad ar Sefyllfa Covid-19 yn Rhondda Cynon Taf "Rwy'n Gyfarwyddwr yr YMCA".

**53 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox. Daeth ymddiheuriad o absenoldeb hefyd gan S Rees-Owen, M Powell (Cadeirydd Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a Phwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad yn y drefn honno) ac A Cox.

**54 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD –** cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar yr 20 Ionawr 2020 a'r 10 Chwefror, 2020 yn rhai cywir yn amodol ei bod yn cael ei nodi: -

Hepgorwyd yr 'Ymddiheuriadau' yn anfwriadol o'r fersiwn Saesneg o Gofnodion o gyfarfod 20 Ionawr 2020 a dylai gynnwys ymddiheuriad gan yr Aelodau a ganlyn: -

Y Cynghorwyr J Harries, G Caple a L Walker.

**55 Rhaglenni Gwaith drafft y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a roddodd gyfle i aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu sefydlu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig estynedig ar ôl ystyried rhaglen waith y Cabinet, mae adolygiad yr estyniad yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhaglen waith y Cabinet (y cytunwyd arni'n ddiweddar gan y Cabinet) a nodi unrhyw faterion yr oedden nhw am eu hystyried, eu herio a'u craffu dros y cyfnod estynedig hwn. Gofynnwyd i'r aelodau gofio efallai y bydd angen cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth mewn cyfuniad o ffyrdd, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ystyried bod amser Swyddogion yn parhau i ganolbwyntio ar ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cefnogaeth a chytundeb wedi bod gan Arweinwyr Grwpiau a Chadeiryddion Pwyllgorau i flaenoriaethu'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu fel y pwyllgor trosfwaol ac y byddai'n gweithredu dull 'ar draws y Cyngor' gyda gwahoddiad yn cael ei estyn i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu thematig eraill.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at un newid i raglen waith y Cabinet a gyflwynwyd gan yr Arweinydd mewn cyfarfod diweddar o'r Cabinet, sef derbyn adroddiad interim mewn perthynas â llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn ogystal â gofynion adrodd statudol ynglŷn â llifogydd yn ddiweddarach. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd fod y Cabinet o'r farn y byddai cyfle i waith craffu gyfrannu at y drafodaeth hon.

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr ymatebion canlynol i nifer o ymholiadau a godwyd:-

- Bydd yr adroddiad ynghylch Llifogydd yn cael ei ychwanegu at yr eitemau parhaus a bydd yn fater i'w drafod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Cabinet, y Cynghorydd Morgan, a fydd cyfle ar gyfer y cam cyn-graffu. Ailbwysleisiodd e fod y Cabinet wedi sôn am y bwriad i gynnwys craffu yn y trafodaethau.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod trefniadau craffu ar y cyd ar waith gyda'r 10 Awdurdod Lleol i graffu ar waith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a bydd y Cyngor hwn nawr yn bwrw ymlaen â hynny dros y deuddeg mis nesaf.

- I gloi, atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Pwyllgor bod cael rhaglen waith hyblyg yn hanfodol ar yr adeg hon lle gall Aelodau dderbyn cyfuniad o adroddiadau ysgrifenedig ac ar lafar i'r pwyllgor, ac efallai caiff cyfarfodydd eu galw yn gyflym er mwyn ymateb i faterion wrth iddyn nhw godi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu fod yn ymatebol i raglen waith y Cabinet ac unrhyw eitemau ychwanegol y gellir eu hychwanegu ato. Gorffennodd e trwy ddweud mai'r bwriad yw bod yr holl Aelodau'n chwarae rhan lawn yn y broses graffu ac ychwanegodd fod y gyfres nesaf o gyfarfodydd i'w cynnal ar-lein yn cynnwys y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc.

**PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod cynnwys y Rhaglen Waith Trosolwg a Chraffu arfaethedig ar gyfer y cyfnod Mehefin-Awst 2020;

2. Derbyn adroddiadiad dros dro ynglŷn â llifogydd yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r gofynion adrodd statudol o ran llifogydd;

3. Adolygu Cynlluniau Adfer y Cyngor fel rhan o ddiweddariad parhaus ar sefyllfa Covid-19 yn Rhondda Cynon Taf, a fydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r rhaglen waith Trosolwg a Chraffu at y dyfodol; a

4. Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn cyflwyno adroddiad ar ystyriaethau'r pwyllgor i'r Cabinet a / neu Aelodau priodol o'r Cabinet.

**56 Y Diweddaraf ynglŷn â sefyllfa COVID-19 yn Rhondda Cynon Taf**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gyfle i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu drafod, adolygu a herio'r wybodaeth lefel uchel sydd wedi'u cynnwys yn adroddiadau'r Cabinet sydd ynghlwm, a gyflwynwyd ar 21 Mai a 25 Mehefin 2020.
Dywedodd wrth y pwyllgor y byddai Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan yn darparu diweddariad a lle bo hynny'n briodol, byddai aelodau o Uwch Garfan y Rheolwyr yn darparu ymatebion i unrhyw ymholiadau. I gloi, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai Aelodau oedd i benderfynu pa faterion yr hoffen nhw dderbyn gwybodaeth bellach a rhagor o fanylion dros y tri chyfarfod nesaf.

Rhoddodd yr Arweinydd drosolwg o ddigwyddiadau dros y tri mis diwethaf a

ddechreuodd gyda'r Cyngor yn atal rhai gwasanaethau yn dilyn y cyfyngiadau symud, cau ysgolion a gweithredu'r cymorth cysgodi/gwarchod i gefnogi preswylwyr, a hynny heb fawr o rybudd. Cofrestrodd cyfanswm o 1160 o wirfoddolwyr cymunedol gyda'r Cyngor ar adeg pan oedd gweithwyr y cyngor yn hunan-ynysu neu'n cysgodi/gwarchod.

Fe symudodd y Cyngor 700 o weithwyr i wasanaethau eraill, gyda 365 ohonyn nhw yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol i gefnogi'r gofal critigol a 200 o staff yn cefnogi'r hybiau lle roedden nhw'n darparu nwyddau siopa, yn gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr, yn casglu meddyginiaeth ar ran y preswylwyr hynny oedd yn cysgodi/gwarchod, a mynd â'u cŵn am dro. Cafodd 25 aelod o staff eu hadleoli i'r ganolfan dosbarthu bwyd yn Aberdâr i ddarparu bwyd i'r rhai ar y rhestr gysgodi/gwarchod ac i'r rhai nad oeddwn nhw'n rhan o'r rhaglen, ond roedd angen cymorth ychwanegol. Mae preswylwyr wedi rhoi croeso mawr i weithio ochr yn ochr â'r trydydd sector a grwpiau cymunedol. Yn RhCT mae tua 10,000 o drigolion yn y rhaglen gysgodi/gwarchod y cysylltwyd â nhw, a rhagor y tu allan i'r rhaglen gysgodi.

Pwysleisiodd yr Arweinydd roedd y sefyllfa dybiedig waethaf yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, ac yn seiliedig ar y modelu a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r cyngor, yn awgrymu y byddai'r gwasanaethau claddu ac amlosgi wedi cael eu llethu. O ystyried hyn, gwnaed penderfyniadau er budd y cymunedau, ac felly caiff nifer sylweddol o wasanaethau eu blaenoriaethu megis gwasanaethau gwastraff, gwasanaethau ailgylchu (roedd y ddau ohonyn nhw yn gweithredu hyd eithaf eu gallu). Er mwyn sicrhau bod y meysydd blaenoriaeth hyn yn rhedeg yn effeithlon roedd meysydd eraill yn gweithredu ar gapasiti cyfyngedig megis glanhau a gwasanaethau eraill fel canolfannau ailgylchu a daeth y gwasanaeth casglu eitemau swmpus i ben. Atgoffwyd yr aelodau bod y gwaith yma yn dal i ddigwydd yn fuan ar ôl Storm Dennis pan oedd staff yn dal i ddelio ag effaith ac ar ôl y difrod storm.

Rhoddwyd nifer o wasanaethau ychwanegol ar waith pan gaeodd ysgolion y sir gan agor y canolfannau/hybiau gofal plant brys ar gyfer gweithwyr hanfodol a sicrhau bod pob teulu sydd â hawl i Brydau Ysgol Am Ddim yn derbyn eu taliadau BACS (bellach dros 10,000 o blant cymwys am brydau ysgol am ddim). Gweithredwyd y system talu trwy BACS nid y system dalebau a rhoddodd Sefydliad Roundtree ganmoliaeth i'r Cyngor am ei gamau cyflym i sicrhau bod taliadau'n cyrraedd pob teulu cymwys. Canmolodd y Ffederasiwn Busnesau Bach y Cyngor hefyd am weithredu'r broses grantiau a'r gefnogaeth i fusnesau bach yn gyflym pan oedd angen y cymorth ariannol arnyn nhw.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod rhai gwasanaethau fel llyfrgelloedd a chyfleusterau cyhoeddus ar gau yn y lle cyntaf yn unol â chyfyngiadau mynediad cyhoeddus a rheoli'r haint. Mae tair llyfrgell wedi ailagor yn ddiweddar a bydd tair arall yn agor maes o law. Mae'r Cyngor yn adolygu ailagor toiledau canol trefi yn dilyn y trefniadau glanhau diwygiedig sydd ar waith. Hysbyswyd y Pwyllgor y bu ymdrech enfawr ar y cyd rhwng Gwasanaethau Addysg y Cyngor a Phrifathrawon i baratoi ar gyfer dychwelyd disgyblion yn ddiogel ar 29 Mehefin. Hyd yma cadarnhawyd bod 47,000 o alwadau trwy Ganolfan Gyswllt y Cyngor wedi'u hateb yn ystod y cyfnod yma.

Hysbyswyd yr aelodau bod cyflenwadau o offer PPE wedi bod ar gael i'r sector gofal preifat annibynnol a chartrefi gofal sy'n eiddo i'r cyngor yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi'u dilyn bob amser. Cysylltodd y Cyngor â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod PPE yn cael ei anfon yn

uniongyrchol i'r sector gofal annibynnol yn rhad ac am ddim. Cydnabu’r Arweinydd yr amser anodd sydd wedi wynebu staff gofal gyda nifer o farwolaethau ar draws y cartrefi gofal er iddo gadarnhau nad yw dwy ran o dair o ofal nyrsio a phreswyl yn y sector annibynnol / preifat a’r sector gofal sy’n eiddo i’r cyngor wedi cadarnhau unrhyw farwolaethau. Ar anterth y pandemig roedd hyd at 140/150 o bobl y dydd yn arddangos symptomau'r Coronafeirws yn y cartrefi gofal / preswyl ond bob wythnos mae'r niferoedd wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r Cyngor bellach wedi gosod offer TG ym mhob Cartref Gofal y Cyngor i sicrhau bod teuluoedd yn dod i gysylltiad â'u hanwyliaid. Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r staff sy'n gweithio yn y cartrefi gofal ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Cyngor yn ystyried gwersi a ddysgwyd o gam cyntaf y pandemig Coronofeirws, yn unol â chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau rheoli heintiau a fydd yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ail don dros y misoedd nesaf.

Wrth gloi, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor yn ystyried gwersi a ddysgwyd o gam cyntaf pandemig y Coronafeirws, yn unol â chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau rheoli heintiau a fydd yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ail don dros y misoedd nesaf. Bydd y Cyngor yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth arwain y gwaith Olrhain Cysylltiadau ar draws Cwm Taf Morgannwg mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd lleol. Canmolwyd cyfraniad yr Uwch Dîm Arwain a'u cyfraniad a'u cyfathrebu â Llywodraeth Cymru a arbedodd, yn ddi-os, fywydau ar draws Cyngor y Fwrdeistref Sirol gan Arweinydd y Cyngor.

Ychwanegodd Prif Weithredwr y Cyngor y byddai cynlluniau adfer y Cyngor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf y gellid eu defnyddio fel sail i ategu'r Rhaglenni Gwaith Craffu.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan aelodau o'r Pwyllgor darparodd Arweinydd y Cyngor y wybodaeth ganlynol: -

- Gwnaed penderfyniad gan y Cyngor cyn y cyfyngiadau symud mewn perthynas â swyddogaethau dirprwyedig a roddwyd i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd ac i'r Uwch Dîm Arwain. Mae trefnau gwneud penderfyniadau a llywodraethu’r Cyngor wedi parhau i weithredu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor i gyflawni penderfyniadau allweddol. Mae hyn wedi cynnwys penderfyniadau brys sy'n angenrheidiol i ymateb gwasanaeth y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r holl benderfyniadau hyn wedi bod o fewn pwerau dirprwyedig arferol Prif Swyddogion, a lle bo hynny'n bosibl yn cael eu cymryd ar ôl ymgynghori â'r Aelod perthnasol o'r Cabinet.

- Yn ystod y cyfyngiadau symud, cyhoeddwyd nifer o ddiweddariadau e-bost yn uniongyrchol gan Arweinydd y Cyngor i'r holl Aelodau Etholedig a chyflwynodd y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariadau dyddiol i'r holl Aelodau Etholedig ynghylch camau gweithredu, datganiadau gan Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) hefyd wedi bod yn aml. Mae cyfarfod rhithwir gyda'r Arweinydd ac Arweinwyr y Grwpiau hefyd wedi'i sefydlu i drafod materion allweddol.

- Mae carfan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd y Cyngor yn arwain ar y gwaith o Olrhain Cysylltiadau ar draws Cwm Taf Morgannwg mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhawyd bod digon o gapasiti yn y garfan i gyflawni'r gwaith hwn gan ganolbwyntio ar leoliadau risg uchel fel cartrefi gofal, hybiau ysgolion, llety byw â chymorth a llety i'r digartref. Mae cytundeb ar waith ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Caerdydd y bydd nifer o leoliadau i Raddedigion yn cael eu dyrannu i garfan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Derbyn y diweddariad a ddarparwyd gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19 i gynnwys yr hyn sydd wedi'i nodi yn adroddiadau'r Cabinet; a

2. (Fel y mae Cofnod Rhif 55 (3) yn cyfeirio) Cytuno y bydd Aelodau, fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig, yn parhau i dderbyn diweddariadau cynnydd rheolaidd ar sefyllfa COVID-19 yn Rhondda Cynon Taf, yn enwedig y Cynlluniau Adfer ac ymateb gan wasanaethau'r Cyngor.

**57 Y Diweddaraf o ran Ailagor Ysgolion**

Darparodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ddiweddariad ar lafar ynglŷn ag ailagor ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, a hynny'n dilyn cynnig Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru i ailagor pob ysgol ar 29 Mehefin 2020.

Trafododd y Cyfarwyddwr y newid i dymor estynedig yr haf ac, er gwaethaf yr ymrwymiad cychwynnol a'r ewyllys da ymhlith staff ac arweinwyr ysgolion i ymestyn y tymor am wythnos ychwanegol, roedd problemau cymhleth o ran telerau ac amodau staff a heriau gofal plant felly gwnaed y penderfyniad i gau ar 20 Gorffennaf 2020 yn ôl y cynllun gwreiddiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod ysgolion a charfanau wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer trosglwyddo plant ar draws y 25 canolfan (hwb) gofal plant mewn ysgolion a dychwelyd hyd at draean o'r holl ddisgyblion i'r ysgol ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r staff yn awyddus i groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariadau ynglŷn â'r meysydd allweddol canlynol: -

Gofal Plant - Bu twf sylweddol yn nifer y plant sy'n manteisio ar ddarpariaeth gofal plant ledled y Fwrdeistref Sirol, ac mae nifer y canolfannau wedi cynyddu o 12 i 25 yn unol â hynny. Ar hyn o bryd mae 720 o blant yn manteisio ar y ddarpariaeth gofal plant yn yr ysgol bob dydd. Arweiniodd y ceisiadau am ddarpariaeth gofal plant ar draws yr ysgolion at 1,672 o geisiadau am ofal plant brys, a chafodd pob un ohonynt eu cymeradwyo. Mae lleoliadau gofal plant wedi'u blaenoriaethu ar gyfer disgyblion agored i niwed a gweithwyr hanfodol. Bu 350 o blant rhwng 0 a 4 oed yn derbyn gofal plant bob wythnos.

Cefnogi Ysgolion - Cyhoeddwyd gwybodaeth leol sy'n adlewyrchu canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i bob ysgol yn brydlon, a hynny mewn perthynas â nifer o faterion megis hylendid, cadw pellter cymdeithasol, asesiadau risg a chyfarpar diogelu personol. Rhannwyd canllawiau hefyd mewn perthynas â lleoliadau cyn-ysgol, Cyrff Llywodraethu, cyfathrebu â rhieni a gofalwyr er mwyn lliniaru unrhyw bryderon, a rhannu gwybodaeth ar wefan y Cyngor. Yn ogystal â hynny, dosbarthwyd gwybodaeth i'r rheiny sy'n dysgu o bell ac yn dysgu gartref.

Cynlluniau Adfer - Cynhelir cyfarfodydd wythnosol i drafod cynlluniau adfer awdurdodau lleol, ac maen nhw'n cynnwys cynrychiolaeth traws-gyfarwyddiaeth a Phrifathrawon er mwyn sicrhau bod strategaethau addas ar waith a bod y cynllun cyflawni hefyd yn cael ei fonitro yn y cyfarfodydd.

Pryderon o ran Ysgolion - Mae'r awdurdod lleol wedi darparu canllawiau manwl ar faterion iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith mewn ysgolion a bod asesiadau risg wedi'u cynnal a'u hadolygu gan Swyddogion Iechyd a Diogelwch y Cyngor, ac wedi'u llofnodi gan Gadeiryddion y Cyrff Llywodraethu. Mae cyfarpar diogelu personol, dyfeisiau thermol ac arwyddion sy'n rhoi gwybod am fesurau hylendid a chadw pellter cymdeithasol priodol wedi'u dosbarthu i bob ysgol. Mae pob ysgol wedi cyflwyno cynlluniau manwl ar sut maen nhw'n bwriadu integreiddio eu disgyblion ar 29 Mehefin i gynnwys y ddarpariaeth gofal plant a fydd yn cyd-fynd ag agor ysgolion i ddisgyblion. Mae trefniadau trafnidiaeth hefyd ar waith yn unol â'r gofynion cadw pellter cymdeithasol er mwyn cludo plant yn ddiogel i ysgolion.

Disgyblion Agored i Niwed - Mae disgyblion agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae Carfanau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion. Mae pedair Ysgol Arbennig yr Awdurdod a dwy Uned Cyfeirio Disgyblion wedi bod ar agor fel canolfannau drwy gydol y cyfnod cloi, gan gydymffurfio â'r gofynion angenrheidiol o ran trafnidiaeth i sicrhau bod y disgyblion mwyaf agored i niwed yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt. Nid yw'r gofynion statudol ynghylch plant ag anghenion addysgol arbennig wedi'u llacio yn ystod y cyfnod hwn, a darparwyd arweiniad a chefnogaeth fanwl i'r ysgolion. Mae holl Baneli'r Awdurdod Lleol wedi bod yn cael eu cynnal o bell, a darparwyd taliadau Prydau Ysgol Am Ddim trwy daliadau Bacs ynghyd â darparu prydau bwyd mewn ysgolion i sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais.

Adolygiad Disgyblion sydd wedi'u Heithrio'n Ddigidol - mae 2,345 o ddisgyblion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol wedi'u nodi ar draws pob ysgol, ac mae cynllun ar waith sydd â'r nod o gasglu dyfeisiau electronig o ysgolion, ailosod meddalwedd briodol arnyn nhw a'u dosbarthu i'r rhai mewn angen. Mae ysgolion wedi derbyn nwyddau newydd yn ôl yr angen. Erbyn diwedd y tymor yma bydd gan bob disgybl sydd wedi'i eithrio'n ddigidol ddyfais sydd wedi'i ailbwrpasu neu ddyfais newydd, ynghyd â chyswllt Band Eang trwy becyn Myfi sy'n rhoi mynediad i'r rhwydwaith 4G.

Y Camau Nesaf - Bydd disgyblion yn cael hyd at dri ymweliad â'r ysgol, a bydd hyn yn cael ei gydbwyso â dysgu o bell. Bydd ysgolion yn canolbwyntio ar ddysgu cydadferol ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Bydd ffrydiau cyllido posibl ar gael i wella'r gwaith gyda'r rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig mewn ysgolion.

Cydweithio - Mae'r holl staff, arweinwyr ysgolion a Phrifathrawon wedi dangos

ymrwymiad gwirioneddol ac wedi gweithio am oriau estynedig a thros benwythnosau, Gwyliau'r Banc a chyfnodau gwyliau heb gwyno i sicrhau bod darpariaeth ar waith ar gyfer disgyblion agored i niwed, a bod dull partneriaeth gwirioneddol wedi bod ar waith drwyddi draw.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant â hyn, ac adleisio teimladau'r Cyfarwyddwr yn ei throsolwg. Estynnodd yr Aelod o'r Cabinet ei diolch i'r athrawon a'r staff hynny, yn enwedig staff y Cyngor o'r garfan Addysg a Chynhwysiant, a fu'n helpu staff i sefydlu'r canolfannau, cefnogi disgyblion agored i niwed, cynorthwyo gyda thaliadau Prydau Ysgol am Ddim, ac sydd bellach yn cefnogi'r disgyblion hynny sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at y gwaith sydd ar y gweill i ailagor ysgolion, a fydd yn rhoi cyfle i blant ddychwelyd i'r ysgol, cael blas ar fod yno a dal i fyny gyda'u ffrindiau a'u hathrawon. I gloi, diolchodd yr Aelod o'r Cabinet unwaith eto i staff yr ysgolion a'r cyngor am eu hymroddiad a'u hymrwymiad.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i gyfres o gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor, mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod: -

Darpariaeth Feithrin - Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod pob plentyn cyn oed ysgol wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth gofal plant a bod y cynnig gofal plant 0-4 oed hefyd ar gael gydag ystod o warchodwyr plant a darparwyr gofal plant. Bydd cynlluniau i integreiddio plant oed meithrin ym mis Medi, serch hynny, y flaenoriaeth ar gyfer y 3 wythnos gychwynnol fydd sicrhau bod disgyblion oed ysgol statudol a disgyblion ôl-16 yn cael cyfle i ddychwelyd i'r ysgol. Oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith, ystyriwyd ei bod hi'n briodol canolbwyntio ar blant oed ysgol statudol ar yr adeg hon, a bydd pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu o bell. Dosbarthwyd canllawiau o ran disgyblion agored i niwed ac fe'u blaenoriaethwyd.

Y canllaw cyfarpar diogelu personol - Caiff y rhain eu hanfon i'r canolfannau'n rheolaidd ac fe'u diweddarwyd yn ôl yr angen. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth fanwl am asesiadau risg a pha lefel o gyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol dan wahanol amgylchiadau. Cyhoeddwyd canllawiau ychwanegol hefyd lle bu pryderon penodol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol - Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol wrthi'n cael eu cyfieithu fel bod modd eu cylchredeg ar unwaith. Yn y cyfamser, darparwyd nifer fawr o wybodaeth, gan gynnwys addasiadau i ddogfennau polisi fel canllawiau gofal iechyd i ysgolion ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed a'r hyn y mae angen i ysgolion ei wneud o ran gofynion statudol unrhyw ddatganiadau ac adolygiadau blynyddol.

Trefniadau ysgolion ar gyfer mis Gorffennaf - Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd 8 disgybl ym mhob dosbarth mewn Ysgolion Cynradd, gyda'r cafeat cyffredinol bod y gofynion cadw pellter cymdeithasol 2 fetr ar waith. Mae ysgolion wedi derbyn llawer o wybodaeth sy'n rhoi cyngor ynglŷn â hynny. Bydd y disgyblion yn aros o fewn eu swigod perthnasol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter cymdeithasol, mae gan bob un o Ysgolion yr 21ain Ganrif ddigon o le mewn coridorau ac ystafelloedd dosbarth, ac mae lluniau wedi'u dosbarthu gyda chyngor ar faterion fel rheoli traffig unffordd, ar gyfer yr ysgolion

hynny lle mae hynny'n fwy heriol.

Lefelau ymgysylltu â'r canolfannau - Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer disgyblion agored i niwed, ac mae modd i Wasanaeth Mynychu'r Ysgol ymyrryd mewn rhai achosion yn ôl yr angen. Mae'r Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau i blant wedi llunio protocol er mwyn mynd i'r afael â theuluoedd sydd wedi ymddieithrio.

Disgyblion sydd wedi'u Heithrio'n Ddigidol - Bydd pob ysgol sydd wedi rhoi dyfeisiau ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn derbyn dyfais newydd cyn diwedd y tymor. Mae TGCh yn cefnogi'r gwaith o ail-osod y dyfeisiau, uwchlwytho'r feddalwedd briodol a'u hailddosbarthu i ysgolion. Y flaenoriaeth yw ailddosbarthu dyfeisiau i ysgolion a disgyblion, a hyd yma mae 852 o ddisgyblion wedi derbyn dyfais.

Dosbarthu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) - Dosberthir y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion ar sail angen a chaiff ei ddyrannu ar y sail hon. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn edrych a oes angen adnoddau ychwanegol, er mwyn gwneud yn iawn, yn ystod y cyfnod yma.

Cefnogi staff ysgolion - Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol ac wedi rhannu gwybodaeth ynghylch lles â phob ysgol. Mae'r gwasanaethau seicoleg hefyd yn darparu hyfforddiant o bell fel y gall staff baratoi ar gyfer plant sy'n dychwelyd i'r ysgol ond mae modd i staff fanteisio ar y gwasanaeth hefyd os bydd angen iddyn nhw wneud hynny.

Plant sy'n derbyn gofal - Pwysleisiwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dadlau bod plant na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel gartref, y plant hynny sy'n derbyn gofal, y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, cynhalwyr ifainc a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u blaenoriaethu drwyddi draw. Ymhlith y grwpiau blaenoriaeth uchel hynny, mae nifer wedi'u nodi a'u targedu er mwyn derbyn gofal plant a chymorth pellach.

**PENDERFYNWYD** cydnabod yr wybodaeth yn y cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'r ymatebion a ddarparwyd i'r ymholiadau a godwyd.

**58 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Aelodau am eu presenoldeb yn y cyfarfod rhithwir ac am eu trafodaeth a'u hargymhellion, a gaiff eu dwyn ymlaen fel y ganlyn: -

- Derbyn diweddariad am y llifogydd yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r gofynion adrodd statudol o ran llifogydd;
- Derbyn diweddariad ar sefyllfa Covid-19 yn Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r cynlluniau adfer fydd yn sail i'r rhaglen waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer y dyfodol

O ran y diweddariad am y llifogydd, cydnabu'r Cadeirydd gais rhai aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu bod Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag aelodau lleol o'r wardiau dan sylw, yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod pan gaiff y mater ei drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm**

**Y Cynghorydd M Adams**
**Cadeirydd**